

### 3 Y prif drigolion yn nechrau yr ail ganrif ar bymtheg

Go brin yw defnyddiau hanes Niwbwrch yn yr ail ganrif ar bymtheg. Yn ôl *Survey* a wnaed gan y Llywodraeth yn 1608,<sup>1</sup> ceir bod William Owen, *gent.* ac eraill yn hawlio ar sail breintlythyrau, dyddiedig 9 Chwefror 1568, a roddwyd i Lewis Owen ap Meyrig, Edward ap John Lloyd ac eraill, y tai a'r tiroedd canlynol yn Hendre Rhosfair a'r Faerdref; "except all & every the courts baron, leet, sheriff, frankpledge,<sup>2</sup> perquisitions & profits of court; together with all woods, underwoods, wards, marriages, mines & quarries; & the goods & cattle of felons, fugitives, suicides, & those /20/in exigent, or condemned & outlawed, & wardage & the advowson<sup>3</sup> of all churches & chapels; & all other regalities whatsoever arising out of the premises."

	<i>ac.</i>	<i>r.</i>	<i>p.</i>
Tŷ a elwir Fron Deg o 4 ystafell, cegin 2 ystafell, gardd a pherllan, a chae o dir cynnyrc neu borfa;	22	0	0
2 weirglodd	11	0	0
darn o dir cynnyrch cyfagos yng nghae Gallt Beder	3	0	0
darn o dir cynnyrch yn Cae Eithin	2	0	0
cae o dir cynnyrch a elwir Cae Dafydd ap Morgan	12	0	0
gweirglodd yn y cae hwn	2	0	0
cae a elwir Erw Hirion, a dau ddarn o dir yn Carreg y Gwŷdd	24	0	0
darn o dir a elwir Cors Griffith	4	0	0
darn arall o borfa a elwir Cae cors y llyn	2	0	0
cae o dir cynnyrch a elwir Cae Sych	2	0	0
darn o dir porfa yng Nghae Glyb	1	0	0
darn arall o dir porfa yn Cefn Mawr	2	0	0
Rowland Williams yn dal 3 darn o dir cynnyrch yn agos i Carreg y Gwŷdd	1	2	0
darn arall o dir cynnyrch yn Cefn Mawr	2	2	0
darn o dir porfa yn yr un lle	2	2	0
Tudur ap Ieuan yn dal tri darn o dir cynnyrch yn Carreg y Gwydd	1	2	0
Nest ferch Ieuan, gweddw, yn dal tŷ o 2 ystafell, gardd, a darn o dir cynnyrch yn Carreg y Gwŷdd	1	0	0
John ap William Jenkin ac Agnes ferch William yn dal tŷ un, ystafell ynghyda darnau o dir cynnyrch yn Carreg y Gwŷdd	2	0	0
David ap Llywelyn yn dal darn o dir cynnyrch yn Erw Goch	1	1	10
gwahanol ddarnau o dir cynnyrch yn Gallt Peder	1	0	0

1 "Jacobean Survey of Anglesey (1608)," ff. 25-31. Yn y *Public Record Office* yn Llundain y mae hon i'w gwled.

2 Y gyfundrefn a drefnai bod deg o gymdogion i fod yn gyfrifol am awn ymddygiad pob un ohonynt.

3 Yr hawl i gyflwyno person i fywoliaeth eglwysig wag.

Richard ap Ieuan Lloyd yn dal 2 croft o dir cynnyrch wrth ben Gors llyn	3	0	0
Robert ap David yn dal bwthyn, gyda darn o dir cynnyrch yn Cefn Mawr	1	2	0
William ap Hugh yn dal bwthyn, gyda darn o dir cynnyrch yn Cefn Mawr	1	0	0
Owen Lewis yn dal 2 ddarn o dir cynnyrch yn y Faerdref	1	0	0
Arthur Morris yn dal darn o dir cynnyrch yn yr un lle	0	1	0
Rees ap John yn dal darn o dir cynnyrch	1	0	0
Elizabeth Owen, gweddw, yn dal tŷ o 2 ystafell, ac un cae cyfagos gweirglodd cyfagos	6	0	0
cae o dir cynnyrch a elwir Cae allan	5	0	0
cae arall o dir cynnyrch a elwir Cae Berth ddu, ynghyda 3 cae bach cyfagos	4	0	0
/21/Arthur Morris yn dal bwthyn un ystafell, a chae yn Cefn Bychan	12	0	0
4 darn o dir cynnyrch a phorfa yn yr un lle	2	0	0
Rowland ap William ap Edward <sup>4</sup> yn dal tŷ un ystafell, gyda darn o dir cynnyrch yn Cefn Bychan	4	0	0
2 ddarn, ar wahân, o dir cynnyrch yn Gallt Peder	2	0	0
Richard ap Rhydderch <sup>5</sup> yn dal tŷ o 2 ystafell, gyda darn o dir cynnyrch yn Cefn Bychan	2	2	0
<i>croft</i> o dir cynnyrch a phorfa yn yr un lle	1	3	0
2 ddarn arall o dir cynnyrch a phorfa yn yr un lle gweirglodd	4	0	0
<i>croft</i> o dir cynnyrch a phorfa yn Gallt y Cleifion	1	0	0
John Jones uchelwr, yn dal tŷ o 2 ystafell a chae o dir cynnyrch	3	0	0
7 darn o dir cynnyrch yn Carreg y Gwŷdd	8	0	0
5 darn o dir cynnyrch yn Gallt peder	2	0	0
darn arall o dir cynnyrch agosaf i'r tywyn	1	3	0
John David ap Rees yn dal cae o dir cynnyrch a elwir Cae dros y Cefn	8	0	0
darn o dir yn Cefn Bychan agosaf i dŷ Pirs ap John ap William	2	0	0
cae o dir cynnyrch a elwir Cae newydd	2	0	0
gweirglodd yn Cefn Bychan a elwir Llanfo	1	2	0
darn arall o dir pori gwael	4	0	0
Owen Morgan yn dal tŷ o 2 ystafell, gyda chae o dir cynnyrch yn Ffrwd y Cleifion <sup>6</sup>	5	0	0
6 darn, ar wasgar, o dir cynnyrch yn Gallt Peder	1	0	0
Lewis ap John Hugh yn dal tŷ o 2 ystafell, gyda chae yn Cerrig Mawr	4	3	0

4 Gweler "Ewyllysiau," pennod xvii.

5 Gweler tud. 26.

6 Cymharer "Clafdy" hanner milltir o Aberffraw i gyfeiriad Tŷ Croes, y dywedir amdano ei bod yn ysbty Tywysogion Aberffraw.

gweirglodd cyfagos	1	3	0
David Lloyd ap John gyda'i fam yn dal tŷ o 2 ystafell, ysgubor o un ystafell, beudy o un ystafell, Gardd, a chynnyrch mewn cae a elwir y Cerrig Mawr	19	0	0
porfa wael	13	0	0
gweirglodd	7	0	0
darn o dir cynnyrch yn y cae a elwir Carreg y Gwŷdd.	0	3	0
2 ddarn o dir cynnyrch yn Gallt Peder	1	0	0
Richard Meredith yn dal darn o dir cynnyrch yn Cerrig Mawr	0	3	0
Alicia Owen yn dal darn o dir cynnyrch	2	0	0
Pirs ap John ap William yn dal tŷ o un ystafell, gyda darn o dir cynnyrch yn Cefn Bychan	2	0	0
Jonet Owen yn dal un cae agosaf i Gardd y toppan	1	0	0
Ellen ferch Ieuan yn dal un croft a elwir y Cae crwn	1	0	0
/22/Hugh Lewis Jeffrey yn dal un cae o dir cynnyrch a elwir cae cedor y wrach (Eng. burdock)	3	0	0
Hugh ap Hugh uchelwr, yn dal un darn o dir cynnyrch wrth Croise Griffith	0	2	0
Ifan Meredith yn dal un darn o dir cynnyrch yn Cefn Hirion yn Gallt Peder	0	2	0
gweirglodd yn yr un lle	1	0	0
darn arall o dir cynnyrch yn Cefn Mawr	0	3	0
6 darn arall o dir cynnyrch yn Cefn Hirion	1	0	0
darn arall o dir cynnyrch yn Carreg y Gwŷdd	0	2	0
William Humfrey, ysw., yn dal tŷ o 3 ystafell, gardd, gyda croft wrth dŷ a elwir Cae gardd	1	0	0
cae o dir cynnyrch yn yr un lle	4	0	0
gweirglodd yn yr un cae	1	2	0
gweirglodd a enwir Gwerglodd gron	2	0	0
cae o borfa a elwir Cae helig	12	0	0
amryw gaeau bychain a <i>crofts</i> o dir cynnyrch yn Cefn Mawr	26	0	0
darn o dir cynnyrch yn Cefn Bychan	0	3	0
cae o dir cynnyrch a elwir Cae Glan y traeth	6	0	0
<i>croft</i> o dir cynnyrch yn Cefn Bychan	1	2	0
<i>croft</i> arall o dir cynnyrch	3	0	0
cae arall o dir cynnyrch a elwir Cae William Meurig	1	2	0
2 ddarn o dir cynnyrch mewn cae a elwir Cae Lewis ap John	2	0	0
Hugh ap Hugh uchod yn dal cae o borfa yn Cefn Mawr	4	0	0
Henry ap Ieuan deiliwr yn dal cae o borfa	3	0	0
Jeffrey ap John yn dal cae o borfa	4	0	0
Lewis ap Hugh Kenrick yn dal tŷ o un ystafell, ynghyda 4 <i>croft</i> mewn tir creiglyd, a darn o dir a elwir Ffridd Tegwared Lloyd	13	0	0

Rhys ap John ap Edward yn dal 3 darn o dir cynnyrch ar wasgar yn Gallt Peder	1	0	0
un tŷ bychan a elwir Tyddyn Gronw bach wrth Llyn Rhos ddu, gyda 5 darn o dir cynnyrch a phorfa	22	0	0
darn o dir cynnyrch a elwir Cae yn yr hendre	4	0	0
gweirglodd	4	0	0
Margaret ferch Ieuan yn dal tŷ o 3 ystafell a <i>croft</i> fechan cyfagos a 6 cae bach oddi amgylch	9	0	0
6 darn arall o dir cynnyrch yn Gallt Peder	1	0	0
3 darn arall o dir cynnyrch yn Carreg y Gwydd	1	2	0
1 darn arall o dir cynnyrch agosaf i'r ffordd sy'n arwain i Gaernarfon	0	1	0
darn o weirglodd	0	1	0
Thomas ap Thomas yn dal un cae o dir cynnyrch a elwir Cae yn yr hendre	4	0	0
1 darn o dir cynnyrch	1	0	0
1 darn arall o dir cynnyrch	1	2	0
/23/Price Prydderch, uchelwr, yn dal un cae o dir cynnyrch a elwir Cae Llel goch	2	2	0
6 darn, ar wasgar, o dir cynnyrch yn Gallt Peder	2	0	0
darn arall o dir cynnyrch yn Carreg y Gwŷdd	2	3	0
Humfrey Rowland yn dal tŷ o 2 ystafell, wrth eglwys Sant Peder yn Rhosfair, gydag un cae o dir cynnyrch a elwir Cae yn yr hendre	1	0	0
tir porfa	1	0	0
gweirglodd	1	0	0
darn o dir cynnyrch	0	3	0
darn arall o dir cynnyrch yn Gallt Peder	0	1	0
Humfrey Ieuan yn dal tŷ 2 ystafell, <i>horreum</i> un ystafell, gyda darnau o dir cynnyrch yn Cae yr hendre	4	0	0
bwthyn gyda darnau o dir cynnyrch a elwir gardd y toppan	0	0	10
darn o dir cynnyrch yn Gallt Peder	0	2	0
3 darn o dir cynnyrch ar wasgar yn Gallt gwta	0	1	20
2 darn o dir cynnyrch wrth Carreg Carnan ynghyda darn arall a elwir Cae Sioned	0	2	10
darn arall o dir cynnyrch wrth Cerrig yr eithin	0	1	0
darn arall o dir cynnyrch wrth Croes faen	0	1	0
Richard Hampton, uchelwr, yn dal 8 darn o dir cynnyrch yn Gallt Peder	4	0	0
Tudur ap Ieuan yn dal 6 darn o dir cynnyrch yn Gallt Peder	1	0	0
Elizabeth ferch William yn dal 4 darn o dir cynnyrch	2	0	0
Humfrey Thomas yn dal bwthyn ynghyda cae bach o dir cynnyrch	3	0	0
darn o dir cynnyrch mewn lle elwir Y Faerdref	0	1	0
Edward ap Hugh yn dal 6 darn, ar wasgar, o dir cynnyrch yn Gallt Peder	2	0	0
Jane Owen, gweddw, yn dal cae o dir cynnyrch a elwir Cae Ieuan grach	1	0	0

darn o dir cynnyrch wrth Cae'r berllan	2	3	0
un darn arall o dir cynnyrch	0	2	10
un darn arall o dir cynnyrch wrth Carreg y Gwídd	0	1	20
un darn arall o dir cynnyrch yn yr Erw goch	2	3	0
<i>croft</i> o dir cynnyrch a elwir yn Erw goch	2	0	0
5 darn o dir, ar wasgar, yn Gallt Peder	3	0	0
cae o dir cynnyrch elwir Cae Pirs Gibbon	2	3	0
3 <i>croft</i> ar wahan yn agos i Cors y Ilyn	3	0	0
darn o dir cynnyrch yn y Faerdre	0	3	0
darn o dir porfa a <i>boveri</i> <sup>7</sup> yn Cefn Mawr	5	0	0
Owen ap John Lewis yn dal darn o dir cynnyrch	1	0	0
Jonett Owen yn dal darn o dir cynnyrch yn y Faerdref	<u>1</u>	<u>0</u>	<u>0</u>
Cyfanswm yn Hendref, Rhosfair a Maerdref	464	3	0
Ardrethi yn Hendref, Rhosfair a Maerdref	12	9	62

/24/Owen Wood Ysw., yn rhinwedd breint-lythrau dyddiedig 13 Tachwedd 1573 a roddwyd i ryw William Howard (ond a fu farw heb etifedd a'i dir felly yn dychwelyd i'r Goron) yn dal **tí** ynghyda melin ddwr newydd<sup>8</sup> ei chodi, a darn o dir cynnyrch yn Gallt y Cleifion, ac ym meddiant Lewis ap William Morgan (ardreth 16d).

4a. 2r. 0p.

(Gwerth blynyddol y felin ar brydles 50s.)<sup>9</sup>

Oddi wrth y *survey* uchod gwelir pwy oedd yn dal tiroedd a oedd yn eiddo'r Goron yn Niwbwrch ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg. Enwau Cymreig sydd as bron yr cwbl ohonynt. Cynnwys y rhestr un **tí** gyda phedair ystafell a chegin gyda dwy ystafell (Fron-deg), dau **dí** â thair ystafell, naw **tí** â dwy ystafell, pum **tí** ag un ystafell, un **tí** a melin ddwr, ynghyda phedwar bwthyn (un ohonynt ag un ystafell).<sup>10</sup>

Mae nifer o enwau'r tiroedd ar gael yn y plwyf heddiw: Frondeg, Cerrig-y-gwídd, Cefn-mawr, Cefn-bychan, Cerrig-mawr, Hendre, yn ymyl yr eglwys (?Llys), a (?) Melin-y-ffrwd. Nid oes gyfeiriad at enwau'r hen blasau - nifer fawr mewn pentref o ymddangosiad mor ddinod, e.e. Plas-uchaf, Plas-newydd, Plas-pydwau, Hen-blas, a thai eraill o hynodrwydd llai. Ceir tystiolaeth fod o leiaf dri o dai (lled bwysig pryd hynny) yn Niwbwrch wedi eu hadeiladu yn yr ail ganrif ar bymtheg, sef Ty'n-coed yn 1621, Plas-uchaf yn 1643, a'r Hendre yn 1679.<sup>11</sup>

<sup>7</sup> *boverum* yw darn o dir y tybid y gallai un pâr o ychen ei aredig mewn un flwyddyn.

<sup>8</sup> Melin-ffrwd, mae'n debyg.

<sup>9</sup> P.R.O. Exchequer, Land Revenue, Miscellaneous Books, vol. 205, m. 43.

<sup>10</sup> Prif nodwedd y ffermdy oedd y gegin a'i llawr gerrig; hefyd y *living room* a'i tho o dulathau derw tywyll oddi wrth ba rai yr hongiai llaw-ddrylliau a chelfi o wahanol fathau. Yn y gegin y byddai y ffarmwr, ei wrdig a'i deulu, ynghyda'r morynion a'r gweision yn cael eu prydau gyda'i gilydd, yn eistedd wrth fwrdd cul o ddenv ddeg troedfedd o hyd. Eisteddai'r meist'r a'r feistres mewn cadair freichiau yn y naill ben a'r llall iddo, a'r gweddill ar feinciau.

<sup>11</sup> Gweler pennod xi.

Wrth sylwi ar enwau'r boneddigion a brynodd y tiroedd a amgaewyd yn Niwbwrch yn ôl Deddf Cau'r Tir yn 1815,<sup>12</sup> gwelir mor niferus ydynt, sef pob perchen tir o bwys bron ym Môn ar y pryd: Arglwyddi Boston, Newborough, Mostyn, Dinorben, Ardalydd Môn, Syr Richard Bulkeley, Syr John Thomas Stanley. Teg casglu bod ganddynt diroedd eraill yn y plwyf yn flaenorol i 1815.

Beth sydd yn cyfrif bod tai mor fawr, sef y plasau uchod, yn cael eu hadeiladu mewn plwyf mor fach ac, erbyn 1600, mor dlawd? Ai ffasiwn cymdeithasol ai ynteu amcan gwleidyddol oedd iddo?

O sylwi ar restr aelodau Senedd a fu'n cynrychioli Sir a Bwrdeisdrefi Môn rhwng 1554 a 1730, pryd y terfynwyd y ddadl a'r ymryson rhwng pleidwyr Biwmares a'r boneddigion a ymdrechodd yn galed i ad-enill breintiau bwrdeisiol trigolion Niwbwrch, gwelir bod dylanwad y Bwcleiod yn oruchaf yn y Sir a'r Fwrdeisdref; hwy /25/oedd yn "Ilywodraethu" yn y blynyddoedd hyn: 1554-8, 1563-72, 1588-93, 1604-21, 1626-40, 1660-1, 1679-1715, 1722-5.

Os nad oedd yr *enwau* teuluaid bob tro yr un, ceir bod y berthynas deuluaid yn llawn mor agos pan oedd yr enwau yn wahanol. Ond yr oedd teimlad cryf yn codi yn eu herbyn ymysg teuluoedd eraill yn y Sir, heblaw bod gwrthblaid ym Miwmares ei hun, oherwydd ni chaniateid i neb bleidleisio yno ond 25 aelod y Gorfforaeth.

Y ffordd hwylusaf i wrthweithio dylanwad y Bwcleiod yn etholiadau'r fwrdeisdref oedd ail-sefydlu megis, hen fwrdeisdref Niwbwrch, a dwyn oddi yno fwrdeisiaid i gynorthwyo yr wrthblaid ym Miwmares. Ond erbyn dechrau yr ail ganrif ar bymtheg yr oedd Niwbwrch mewn sefyllfa economaidd isel. I symud y diffyg hwn, prynodd boneddigion Môn erddi a lleiniau yn Niwbwrch ac adeiladasant dai neu blasau, yn ôl eu sefyllfa gymdeithasol, i geisio ymsefydlu yno fel bwrdeisiaid newydd, ac felly â hawl ganddynt i bleidleisio yn yr etholiad.

Yn ol Papurau Ystâd Bodorgan<sup>13</sup> bu i William Bold o Dre'r-ddôl brynu Rofft yr Odyn a Dryll y Goetten gan un o'r enw John Owen John, am ,25 yn Ebrill 1665 (*Rhif* 583). Daeth Tyddyn y Cae Hen, alias Tyddyn y Cefn Bychan, a darnau eraill o dir yn Niwbwrch i feddiant Owen Bold o Dre'r-ddôl yn 1688 (*Rhifau* 584-5). Ymhen deuddeg mlynedd wedyn yr oedd Owen Bold wedi sicrhau Cae'r Sgubor, Cae'r Gors, Cae Eithin, Buarthgae Ucha ac Isa, heblaw **Tí** Ucha, *alias* Tyddyn Richard John ap Evan, Llain Bach y **Tí**, Llain y Garreg-lwyd, a Llain Pen-y-waun (*Rhifau* 586-9).

Yng nghyfnod llywodraeth Oliver Cromwell, yn 1658, penodwyd personau cymwys i fod yn ddirprwywyr a chynorthwywyr i fwrw allan o'u swyddi weinidogion ac ysgol-feistriaid anghymeradwy yn ôl barn y Llywodraeth. Yr oedd dau o Fôn wedi eu penodi, ac un o'r cyfryw oedd John Lloyd o Niwbwrch.<sup>14</sup>

<sup>12</sup> Gweler tt. 40-42.

<sup>13</sup> Yn Llyfgrell Coleg y Gogledd, ym Mangor.

<sup>14</sup> Cal. State Papers, Domestic, 1658-9, p.110.